JONES, PETER ('Pedr Fardd '; 1775 - 1845), bardd ac emynydd

Enw: Peter Jones
Ffugenw: Pedr Fardd
Dyddiad geni: 1775
Dyddiad marw: 1845
Rhiant: William Jones
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd ac emynydd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Eisteddfod; Barddoniaeth
Awdur: Ray Looker

Ganwyd 17 Medi 1775, mab William Jones, gwehydd (neu deiliwr) a bardd gwlad o Frynengan ym mhlwyf Dolbenmaen, Sir Gaernarfon. Dilynodd yr un grefft â'i dad eithr symudodd yn ifanc i Lerpwl, lle y treuliodd weddill ei oes, a lle y dywedir iddo fod yn ysgolfeistr am rai blynyddoedd. Yr oedd yn Fethodist Calfinaidd, ac yn flaenor am flynyddoedd yn hen gapel Pall Mall.

Amlygodd ddawn farddonol yn ieuanc iawn, meistrolodd reolau cynghanedd, ac yn Lerpwl cyrchid ato am addysg gan feirdd ieuainc ymhlith ei gydwladwyr yno. Bu'n llwyddiannus fel bardd eisteddfodol, e.e. enillodd ei gywydd, ' Gwaredigaeth Israel, a Dymchweliad yr Aiphtiaid yn y Môr Coch, ' yn eisteddfod Aberhonddu, 1822; yn 1826 enillodd gadair eisteddfod Gwent a Morgannwg yn Aberhonddu am ei awdl, ' Rhoddiad y Ddeddf ar Fynydd Sinai. ' Ei gystadleuaeth olaf, hyd y gwyddys, oedd ei awdl ar ' Cystuddiau, Amynedd ac Adferiad Job, ' yn eisteddfod Lerpwl yn 1840 (lle yr enillodd ' Eben Fardd '). Ymhlith ei waith cyhoeddedig ceir *Mel Awen* (1823), cyfrol o farddoniaeth gaeth a rhydd; cyfrol o emynau yn cynnwys rhai enwog fel ' Cysegrwn flaenffrwyth ..., ' ' Cyn llunio'r byd ... ' a ' Daw tyrfa rif y gwlith '; *Catecism Ysgrythyrol*; hanes Cymdeithasfa'r Bala yn 1820; cyfieithiad, *Manteision ac Anfanteision Ystad Priodas*. Cyfrannodd lawer i gylchgronau fel *Seren Gomer* a *Goleuad Gwynedd*.

Bu farw yn Lerpwl, 26 Ionawr 1845, a chladdwyd ef ym mynwent S. Paul; David James ('Dewi o Ddyfed') a weinyddodd yn yr angladd.

Ceir manylion llawnach o yrfa helbulus Pedr Fardd yn Lerpwl yn *Hanes Methodistiaeth Liverpool* (J. H. Morris) 119-24.

Awdur

Ray Looker

Ffynonellau

Peter Jones, *Awdl ar Gystuddiau, Amynedd ac Adferiad Job* (Caer 1841) (ail arg.)

Peter Jones, *Awdl ar Roddiad y Ddeddf ar Fynydd Sinai testun y gadair yn Eisteddfod Aberhonddu yn y flwyddyn MDCCCXXVI*

(Lerpwl 1826)

Peter Jones, *Catecism Ysgrythyrol, ar ddull corph o Dduwinyddiaeth* (Caerlleon c.1823)

Peter Jones,*Crynodeb o hanes y gymdeithasfa a gynnaliwyd yn y Bala, y 13 a'r 14 o fis Mehefin, yn y flwyddyn 1820* (Lerpwl 1820)

Peter Jones, *Duw yn Amddiffynfa i'w Bobl can newydd ar hen fesur* (Lerpwl 1833) (2il arg.)

Peter Jones, *Crynoad o Hymnau sef cydymmaith i'r Ysgol Sabbothol; yn dair ran. I. Hymnau ar amrywiol destunau. II. Hymnau ar bennodau yr hyfforddwr, sef catecism y parch. T. Charles. III. Hymnau cenadol* (Lerpwl 1830)

Peter Jones, *Hymnau i'w canu yn y Gymdeithasfa, a gynnelir ar Sul y Pasg, Ebrill 2, 1820, gan Ysgolion Sabbothol y Trefnyddion Calfinaidd, yn Lerpwl* (Lerpwl 1820)

Peter Jones, *Hymnau Newyddion* (Lerpwl 1825)

Peter Jones, *Manteision ac anfanteision ystad priodas, yn ôl fel yr elir iddi gyda phersonau crefyddol neu anghrefyddol wedi eu gosod allan dan gyffelybiaeth breuddwyd; gydag attodiad, yn yr hwn yr ystyrir y pwngc y'mhellach ac y cadarnheir y rhesymau trwy brofion o hen hanesion luddewig* (Lerpwl 1819)

Y Geninen, 1886, 65

Y Traethodydd, 1854, 257; 1900, 278

Transactions of the Royal National Eisteddfod of Wales, Liverpool, 1884 (Lerpwl 1885), 592

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Hanes llenyddiaeth Gymreig o 1651 O.C. hyd 1850 (1893)

H. Blackwell, NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography

Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru (1870)

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (Aberdâr 1867-70), i, 632

Notable Welshmen (1700–1900) (1908)

J. Jones ('Myrddin Fardd')*Enwogion Sir Gaernarfon* (1922)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Peter Jones

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 76085446

Wikidata: Q13130737

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu